

Bob Owen a Chymdeithas Hanes Meirionnydd

Y llynedd (1999) dathlwyd pen-blwydd Cymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd yn drigain oed.

Sylfaenwyd hi ym Mehefin 1939, ond oherwydd i'r rhyfel dorri allan dri mis yn ddiweddarach bodolai mewn enw yn unig am rai blynyddoedd; yn wir ni chynhaliwyd ei chyfarfod agoriadol hyd 3 Gorffennaf 1948. Cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r *Cylchgrawn* sirol yn 1949 dan olygyddiaeth Syr William Llewelyn Davies, Aberystwyth. Sut bynnag, mae tystiolaeth ar gael mai Robert (Bob) Owen, y chwilotwr dyfal a'r llyfrbryf o Groesor, oedd y person lleol cyntaf i alw am sefydlu cymdeithas o'r fath ym Meirionnydd, a hynny yn 1933, sef chwe blynedd ynghynt.

Yn ystod gwanwyn 1933 cyflogid Bob Owen gan W. Fergusson Irvine (1869-1962), yr hynafiaethydd o Gorwen, i gopïo hen ewyllisiau drosto yn y Swyddfa Brofiant ym Mangor. (Oherwydd y dirwasgiad yn y diwydiant llechi yn ystod y 1930au cynnar, roedd Bob Owen yn ddi-waith ar y pryd.) Yn un o'i lythyrau manwl at Irvine a gedwir bellach yn Archifdy Meirionnydd (ZM344/10), ac a ddyddiwyd 19 Ebrill 1933, fe ddywed Bob Owen hyn:

Is it not a shame that we have no... Society in this County? What a vast historical romances we have lying idle in dusty packages in the Libraries of the country. Sometimes my whole nature pours vengeance upon the teachers and scholars of the County. Their only aim I am afraid is training so many children every year to pass Examinations and cramming their minds with machine made culture. I think myself everyone ought to know the history of the county or parish he lives in...


I wonder whether you, Charles Phibbs, T.P. Ellis, Dolgellay, Wm. L. Davies, M.A., Aberystwyth, John Lloyd, M.A., Dolgellay, and others in Merioneth could start an Historical Society for Merioneth at once.

I am ashamed of my County, and also of Ca[er]narvonshire, Montgomeryshire, Cardigan, Anglesey and most other counties have formed Societies of this nature [a] long time ago and they are doing good jobs...

Atebwyd y llythyr hwn gan Irvine ar 3 Mai 1933; fe gedwir hwnnw bellach ymhlith papurau Bob Owen yn y Llyfrgell Genedlaethol (33/I/6a). Yn annisgwyl braidd, ac er mawr siom i Bob Owen mae'n sicr, ni wnaeth Irvine unrhyw

sylw yn ei atebiad ynglŷn ag awgrym ei gyfaill i sefydlu cymdeithas hanes sirol.

Fel Bob Owen, yr oedd



Bob Owen

Fergusson Irvine yntau yn aelod cyfetholedig o Bwyllgor Cofnodion y Sir, y 'County Records Committee' fel y'i gelwid. (Ymhlith aelodau cyfetholedig eraill o'r un pwyllgor ar y pryd oedd: Ifan ab Owen Edwards, W. Llewelyn Davies, T.P. Ellis, R.T. Jenkins a Ben Bowen Thomas.) Galwyd cyfarfod o'r pwyllgor hwn ar 8 Tachwedd 1934 i drafod y cynnig i sefydlu cymdeithas hanes sirol, ac fel y gellid disgwyl cymeradwywyd penderfyniad cadarnhaol y pwyllgor hwnnw'n wresog gan Gyngor Sir Meirionnydd ar 5 Rhagfyr yr un flwyddyn:

County Records Committee
The Minutes of a Meeting of the County Records Committee held on 8th November, 1934, were submitted for the information of the Council

Merioneth Historical Society Resolved:
(a) That the County Council most heartily approve of the proposal to establish a County Historical Society.
(b) That the Education Committee be asked to make the necessary arrangements for the preservation of school records, Log Books and Attendance Registers.

Er i'r Cyngor roi sêl ei fendith ar gynigiad y Pwyllgor Cofnodion, ymddengys nad aed â'r mater gam ymhellach ar y

pryd. Mae'n anodd deall y diffyg gweithredu hwn.

Tair blynedd yn ddiweddarach, ysgrifennodd D. Tecwyn

sylfaenwyr Cymdeithas Hanes y sir honno. Ym Meirionnydd hefyd Clerc yr Heddwdch a'r Cyngor Sir rhwng 1920-1954, Hugh J. Owen, i raddau mawr a gafodd y clod am sefydlu Cymdeithas Hanes a Chofnodion y sir yn 1939. (Gweithredodd fel ei Chadeirydd o'r dechrau hyd ei farwolaeth yn 1961 ac etholwyd ef yn Is-Lywydd.) Sut bynnag, yn ôl y dystiolaeth uchod daliaf mai Bob Owen oedd tad y syniad.

Etholwyd Bob Owen yn aelod o Gyngor y Gymdeithas yn 1939, ond mae'n amlwg i hyn ei siomi ar y pryd. Mewn llythyr o'i eiddo at ei gyfaill Dr Thomas Richards, Llyfrgellydd Coleg y Brifysgol, Bangor, ac a ddyddiwyd 28 Mehefin 1939, fe ddywed:

'Ni chododd pobl Sir Feirion[n]ydd mohonof yn Vice-President y Gymdeithas Hanes fel [y gwnaeth pobl] Sir Gaernarfon. Codwyd Mrs Jones-Roberts fel anrhydedd iddi gan anghofio mai y fi o bawb o gynhyrfodd Hugh J. Owen a John Lloyd ac eraill i'w sefydlu. Fel na mae hi. Yr wyf ar y Cyngor wrth gwrs... (Bangor 3007/23).

Dyrchafwyd Bob Owen yn Is-Lywydd yn 1947 a gwnaed ef yn aelod o Bwyllgor Cyhoeddiadau'r Gymdeithas y flwyddyn ganlynol. Darlithiodd iddi yn ei Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 18 Tachwedd 1950 ar y testun 'Ewyllysiau fel Ffynhonnell Gyfoethog ar rai Agweddau o Hanes y Sir' - '...a very interesting and instructive address' yn ôl y cofnodion. (Ar ei brofiad chwithig o ddarlithio yn Saesneg ar yr achlysur hwnnw, gw. Dyfed Evans, *Bywyd Bob Owen* (1977), tud. 191.) Hefyd traethodd yn huawdl ac awdurdodol gerbron y Gymdeithas ym mhlasau Bronanw (1953), Tan-y-bwlch (1958), Maesyneuadd (1959) a Rhiwlas (1960). Cyfrannodd i'r *Cylchgrawn* yn 1954, 1959, 1960, 1961 a 1962. Bu'n aelod teyrngar o'r Gymdeithas hyd ddiwedd ei oes; bu farw ar 30 Ebrill 1962 yn 77 oed.

Wrth i'r Gymdeithas ddathlu ei phen-blwydd yn drigain oed, rhaid oedd dwyn ar gof yr awgrym pwysig a phellgyrhaeddol a wnaed gan Bob Owen yn ei lythyr at W. Fergusson Irvine yn Ebrill 1933. Yr awgrym hwn yn ddiâu a roes fod i Gymdeithas Hanes a Chofnodion Sir Feirionnydd chwe blynedd yn ddiweddarach. Dymunwn yn dda iddi i'r dyfodol.

A. Lloyd Hughes